ATODLEN 3

Cydnabyddiaeth o ddŵr mwynol naturiol

# RHAN 1

## Dŵr mwynol naturiol a echdynnwyd o'r ddaear yng Nghymru

**1.** Rhaid i berson sy'n ceisio cael cydnabyddiaeth ar gyfer dŵr a echdynnir o'r ddaear yng Nghymru fel dŵr mwynol naturiol at ddibenion Erthygl 1 wneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod perthnasol y mae'r dŵr a echdynnir yn ei ardal ynddi, gan roi'r manylion a osodir ym mharagraff 2.

**2.** Dyma'r manylion —

(a) y rheini a bennir ym mharagraff 1o Ran 3;

(b) unrhyw wybodaeth arall sy'n dangos bod y materion a bennir ym mharagraff 2 a 3 o Ran 3 wedi'u sefydlu; a

(c) y dystiolaeth honno sy'n foddhaol i ddangos nad yw'r dŵr yn cynnwys unrhyw sylwedd a restrir yn Atodlen 6 ar lefel sy'n fwy na'r terfyn uchaf a bennir o ran y sylwedd hwnnw yn yr Atodlen honno.

**3.** I'r graddau y mae'n ofynnol rhoi manylion o unrhyw anionau, cationau, cyfansoddion sydd heb eu hïoneiddio neu elfennau hybrin a bennir yng ngholofn 1 o Atodlen 5 yn unol ag is-baragraff (b) o baragraff 2, rhaid mynegi'r crynodiad o bob anion, cation, cyfansoddyn sydd heb ei ïoneiddio neu elfen hybrin yn y manylion hynny yn yr uned fesur a bennir gyferbyn ag ef yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno.

**4.** Pan fydd manylion o'r fath wedi cael eu rhoi felly, rhaid i'r awdurdod perthnasol eu hasesu a chydnabod bod dŵr y mae'r manylion hynny'n ymwneud ag ef yn ddŵr mwynol naturiol os yw wedi'i fodloni—

(a) bod y dŵr yn ddŵr mwynol naturiol sy'n cydymffurfio â pharagraff 3 o Adran I o Atodiad I; a

(b) bod nodweddion y dŵr wedi cael eu hasesu yn unol â'r canlynol —

(i) y pwyntiau a rifir 1 i 4 a osodir ym mharagraff 2(a) o Adran I o Atodiad I,

(ii) y gofynion a'r meini prawf a restrir yn Rhan 3 o'r Atodlen hon, a

(iii) dulliau gwyddonol cydnabyddedig.

**5.** Rhaid i'r awdurdod perthnasol, wrth roi cydnabyddiaeth i ddŵr mwynol naturiol yn unol â pharagraff 4, gyhoeddi datganiad o gydnabyddiaeth o'r fath a'r rhesymau dros ei rhoi yn y London Gazette.